Coleg Staff
Hyfforddiant i Waith Ieuenctid yng Nghymru
Staff College
Training for Youth Work in Wales

# HYFFORDDIANT YMARFERWYR MEWN GWAITH IEUENCTID CWRS CYMHWYSO LEFEL 4




## YMARFER GWAITH MAES

## GWYBODAETH

# CYNNWYS

**Cyflwyniad**

**Gofynion lleoliadau**

**Goruchwylio Gwaith Maes**

**Cyswllt â’r Rheolwr Lleoliad**

**Manylion am aseiniadau**


# YMARFER GWAITH  MAES ar QCA Lefel 4

## Cyflwyniad



Mae'r cyfle i gymryd rhan mewn ymarfer ar y maes yn rhan ganolog o hyfforddiant gweithwyr ieuenctid a chymuned. Fel rhan o Raglen Hyfforddi Ymarferwyr mewn Gwaith Ieuenctid y Coleg Staff, cefnogir pawb sy'n cymryd rhan ynddi i weithio gyda phobl ifanc ar leoliad mewn sefydliad mewn cyd-destun gwaith ieuenctid. Bydd hyn yn rhoi cyfle i fyfyrwyr i gynyddu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad o weithio gyda phobl ifanc. Bydd yn eu helpu i weld y cysylltiad rhwng ymarfer â chynnwys damcaniaethol eu cwrs ac yn hyrwyddo eu datblygiad proffesiynol fel gweithwyr ieuenctid.

## Gofynion Ymarfer Gwaith Maes




Mae gofynion y cwrs yn dweud y bydd myfyrwyr yn treulio hyd at 45 awr ar leoliad, gyda 45 awr ychwnaegol yn ymchwilio ac yn cwblhau tasgau asesu. Bydd y ddwy ekfen hyn gyda'i gilydd yn cyfrif am y 90 awr o ddysgu sydd yn y modiwl.

Gellir cyflawni'r ymarfer drwy weithio mewn clwb ieuenctid neu mewn sefydliad ieuenctid arall am 3 awr yr wythnos dros gyfnod o 15 wythnos. Os nad yw'r trefniant hwn yn gyfleus, oherwydd amgylchiadau personol, gellir gwneud y 45 awr o waith ieuenctid dros gyfnod o amser gwahanol, ee. drwy raglenni preswyl. Fodd bynnag, mae'n ofynnol bod yr ymarfer yn para am ddigon o amser i'r myfyriwr allu meithrin perthynas gyda'r bobl ifanc, i ymestyn ei ymarfer a'i ddatblygiad proffesiynol ac i fyfyrio arno.

Dylai'r sefydliad sy'n cynnig y lleoliad roi cyfle i'r myfyriwr weithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc yn unigol ac mewn grwpiau ac i ymgymryd â'r tasgau sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Cyfanswm oriau'r modiwl yw 90 awr sy'n cwmpasu:-





| | |
|---|---|
| 45 awr | ymarfer gwaith ieuenctid dan oruchwyliaeth a gweithgaredd a gynlluniwyd |
| 45 awr | ymweliadau arsylwi, ymchwil i'r cyd-destun cymunedol, gwneud yr astudiaeth achos, |

Diweddaru’r portffolio tystiolaeth a’r dyddiadur myfyriol, cyfarfodydd gyda Gorchwylydd Gwaith Maes.

**Sut y caiff hwn ei drefnu**

Yn y lle cyntaf, cyfrifoldeb y myfyriwr yw cysylltu â sefydliad ieuenctid a gwneud y trefniadau gofynnol ar gyfer lleoliad. Bydd y cytundeb terfynol yn amodol ar gydsyniad y Coleg Staff y bydd y lleoliad yn rhoi cyfleoedd i gyflawni’r’r holl ganlyniadau dysgu.





Bydd gan bob myfyriwr sy’n cymryd rhan yn y Rhaglen â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc a bydd y rhan fwyaf eisoes yn gweithio’n wirfoddol neu am dâl i sefydliadau ieuenctid lleol neu â chysylltiadau yno. Gall myfyrwyr wneud eu lleoliad gwaith maes mewn sefydliad sy’n hysbys iddynt neu gallant wneud cais i sefydliad arall er mwyn ehangu eu profiad. Ar y diwrnod sefydlu, rhoddir gwybodaeth i’r myfyrwyr i’w throsglwyddo i sefydliadau lleoliad potensial sy’n egluro rhesymeg, gofynion a chanlyniadau dysgu profiad gwaith maes y myfyrwyr.

Os bydd myfyrwyr yn cael trafferth neu os oes ganddynt bryderon yngl◊n â threfnu eu lleoliad maes gwaith fe’u cefnogir i ddod o hyd i sefydliad addas gan Gydlynydd Lleoliadau’r Coleg Staff.

**Goruchwylio Gwaith Maes**

Tra bydd myfyrwyr ar leoliad dylent gael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd i ategu eu hymarfer. Cynhelir y cyfarfodydd hyn gyda **Goruchwylydd Gwaith** Maes a bydd cyfle ynddynt i fyfyrwyr rannu eu syniadau a myfyrio ar y profiad gwaith ieuenctid gyda gweithiwr ieuenctid cymwysedig. Dylai’r broses oruchwylio helpu myfyrwyr i ymestyn eu gwybodaeth, gwella eu sgiliau a datblygu fel gweithwyr ieuenctid.




**Goruchwlydd Gwaith Maes**

Pan fydd myfyrwyr yn cael profiad ar y maes, byddant yn cael eu cefnogi gyda'u dysgu gan **Oruchwylydd Gwaith Maes.** Gall y goruchwylydd fod yn gweithio yn y sefydliad sy'n cynnig lleoliad ne y tu allan i'r sefydliad hwnnw, ond rhaid iddo neu iddi fod mewn a safle i gwrdd â'r myfyrwyr yn rheolaidd i ddarparu sesiynau goruchwylio. Yn ddelfrydol, bydd y rhain yn cael eu cynnal bob pythefnos.
Yn y lle cyntaf gofynnir i fyfyrwyr wneud eu trefniadau eu hunain o ran ceisio Goruchwylydd Gwaith Maes a all eu cefnogi yn ystod y cyfnod ymarfer Dylai'r goruchwylydd fod â phrofiad o waith ieuenctid, a rhywfaint o brofiad hefyd, ynddelfrydol, o oruchwylio mewn amgylchedd gwaith ieuenctid a chymuned neu waith cymdeithasol.

Bydd yn rhaid i fyfyrwyr negodi amserau cyfarfodydd ac agenda'r cyfarfodydd gyda'r goruchwylydd. Hwn fydd y cyswllt gorchwylio ac fe''i cofnodir yn Ffurflenni Gweinyddu Gwaith Maes y myfyrwyr.


Os bydd myfyrwyr yn cael trafferth i gysylltu â Goruchwylydd Gwaith Maes addas fe'y cefnogir i wneud hynny gan Gydlynydd Lleoliadau'r Coleg Staff.

## Rheolwr Lleoliad

Ar ddechrau'r lleoliad, bydd Rheolwr Lleoliad (RLl) o'r Coleg Staff yn cwrdd â'r myfyriwr i gynnal cyfarfod teirffordd er mwyn sicrhau bod pawb yn deall y trefniadau a bod y contract wedi cael ei lofnodi. Gellir trefnu cyfarfodydd teirffordd pellach os bydd angen.

Gall y myfyriwr gysylltu â Rheolwr Lleoliad y Coleg Staff neu â'r Cydlynydd Lleoliadau ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs er mwyn derbyn gwybodaeth, cyngor neu i drafod unrhyw agwedd ar y lleoliad neu'r cwrs yn gyffredinol.

## Tasgau mewn perthynas ag ymarfer gwaith maes



**Dylai'r ymarfer gwaith ieuenctid roi cyfle i'r myfyriwr wneud y canlynol:-**

- gweithio gyda phobl ifanc mewn sefydliad ieuenctid o fewn cyd-destun cymuned. Bydd hyn yn golygu dysgu am fywyd y bobl ifanc sy'n mynychu'r clwb/sefydliad ieuenctid ac i bobl ifanc eraill o ran cyfleoedd addysg, cyflogaeth, hamdden a gwaith ieuenctid a gwasanaethau eraill sy'n effeithio ar eu bywydau megis iechyd, tai, trafnidiaeth, gwybodaeth ayb. Rhaid i'r myfyriwr ystyried hefyd sut mae'r sefydliad ieuenctid yn perthyn i'r gymuned.
  Rhaid cynnwys y wybodaeth hon mewn arolwg cryno o'r gymuned gyfan (ee. ei hanes a'i daearyddiaeth) a fydd yn ffurfio **Proffil Cymunedol.**

- Dealltwriaeth gynyddol o ddatblygiad pobl ifanc, amrywiaeth profiad pobl eraill a'r gallu i ymwneud â phobl ifanc yn unigol. I hyrwyddo'r datblygiad hwn bydd y myfyriwr yn cynhyrchu **Astudiaeth Achos o Berson Ifanc.**

- Gweithio gyda grwpiau o bobl ifanc – er mwyn ehangu dealltwriaeth a sgiliau'r myfyriwr o ran gweithio gyda phobl ifanc, y Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid i Gymru, gwaith grŵp a chynllunio a darparu rhaglenni. Bydd rhan o'r ymarfer hwn yn golygu **cynllunio rhaglen waith ieuenctid enghreifftiol dros ddeuddeg wythnos a chynllunio a darparu gweithgaredd cwricwlaidd gan ddefnyddio model y cytunwyd arno.**




- Cadw cofnod o bob sesiwn ymarfer **(mewn dyddiadur)** y gellir eu defnyddio i hybu trafodaeth yn ystod sesiynau goruchwylio ac y gellir eu defnyddio i gofnodi a hybu myfyrdod y myfyriwr ar yr ymarfer. Defnyddir y broses hon o ymarfer, myfyrdod, cofnodi a goruchwylio ar ddiwedd y lleoliad i gynhyrchu **Cofnod Myfyriol Macro** a ddylai gynnig golwg gyffredinol ar holl gyfnod yr ymarfer lle bydd yr ymgeisydd yn myfyrio am eu profiad o waith ieuenctid gan ystyried:- y sgiliau gwaith ieuenctid a ddefnyddiwyd ac a ddatblygwyd; sut maent wedi cymhwyso theori'r cwrs at yr ymarfer; a sut maent wedi datblygu fel gweithwyr ieuenctid myfyriol a moesegol.

- Yn ystod y cyfnod hwn hefyd gofynnir i fyfyrwyr ymweld â 2 sefydliad arall i ieuenctid er mwyn arsylwi ar sut mae gwaith ieuenctid yn cael ei ddarparu mewn gwahanol amgylcheddau. Pwrpas yr ymweliadau hyn yw rhoi cyfle i fyfyrwyr ehangu eu profiad o wahanol fathau o waith ieuenctid a myfyrio ar ystyr ymarfer da. Bydd myfyrwyr yn cofnodi'r ymweliadau hyn ac yn cynnig sylwebaeth arnynt ynghyd â gwerthusiad cryno o waith y sefydliadau hyn – **2 Ymweliad Arsylwi.**

Bydd y darnau hyn o waith yn rhan o’r **Ffeil Ymarfer** a fydd yn cynnwys:-

1. **Portread o'r myfyriwr mewn geiriau**

2. **Amlinelliad o broffil cymuned yn cynnwys adroddiad byr o’r asiantaeth sy’n cynnig lle i'r myfyriwr**

3. **Astudiaeth achos o berson ifanc**


4. **Rhaglen waith ieuenctid enghreifftiol am 12 wythnos a gweithgaredd cwricwlaidd y cytunwyd arno.**

5. **Cofnodion mewn dyddiadur i ategu Cofnod Myfyriol Macro o’r lleoliad**

6. **Cofnodion am 2 ymweliad arsylwi**

7. **Asesiad o ymarfer myfyrwyr gan y Goruchwylydd Gwaith Maes**

Cyflwynir **Ffeil Ymarfer** y myfyriwr i’r Coleg Staff ar ddiwedd y cwrs i gael ei asesu.




I wybod rhagor neu i gael eglurhad pellach cysylltwch â:-
**Mary Nicholls,**
**Cydlynydd Lleoliadau**,
**Coleg Staff** - ffôn: 029 20 855725
e-bost: marynicholls@wya.co.org

At: Pawb sy'n cymryd rhan yn y Cwrs Sylfaen

2003/2004

Annwyl Gyfeillion/Fyfyrwyr,

**GWAITH IEUENCTID A CHYMUNED, CWRS, QCA LEFEL 4**
**GWYBODAETH OFYNNOL AM YMARFER GWAITH MAES**

Cysylltwch â'ch Sefydliad Lleoliad a'ch Goruchwylydd Gwaith Maes arfaethedig gan roi'r llythyrau ynghlwm iddynt. Pan fyddant wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan llenwch y bonyn ateb a byddwn yn anfon rhagor o wybodaeth atynt.

Byddai o gymorth hefyd pe gallech ddychwelyd y ffurflen cyn gynted â phosibl fel y gallaf gysylltu â'ch goruchwylydd er mwyn trafod eu rôl erbyn i chi gychwyn yn eich lleoliad. Peth dymunol hefyd yw i ni drefnu cyfarfod teirffordd rhygnoch chi, eich Goruchwylydd Gwaith Maes a Rheolwr Lleoliad y Coleg Staff cyn gynted â phosibl ar ôl i chi gychwyn tyn eich.

Os cewch drafferth i drefnu lleoliad neu eich goruchwylydd rhowch wybod imi, os gwelwch yn dda.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r cwrs ac yn ei gael yn ddiddorol a defnyddiol.

Yn gywir,

Mary Nicholls
Cydlynydd Lleoliadau
Llinell Uniongyrchol: 029 20855725 mary.nicholls@wya.org.uk

---

## CWRS GWAITH IEUENCTID A CHYMUNED, QCA LEFEL 4
## GWYBODAETH AM Y LLEOLIAD GWAITH MAES

Enw'r Myfyriwr: ……………………………………………………………………………..……………..

Sefydliad Lleoliad Posibl: …………………………………………………………….…….…………..……

Enw Goruchwylydd Ymarfer: ……………………………………………………….………………….

Cyfeiriad:………………………………….…………………………………………………….……………..

……………………………………………………………..……………………………………..…………….

Ffôn: ……………………………………….………….……… Ffacs: ………………………..……………………….

E-bost………………………………………………………………………………………….…….…………

I'w dychwelyd at Mary Nicholls, Coleg Staff, Cyngor Ieuenctid Cymru, Llys Leslie, Lôn-y-Llyn, Caerffili CF83 1BQ. Ffôn 029 20 855725 or 855700. Email mary.nicholls@wya.org.uk